



# Ffurflen astudiaeth

**Enw'r astudiaeth: Pwyllgor Craffu Materion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles:**  
Cylch Gorchwyl a Gorffen dros Daliadau am Wasanaethau  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Cefndir

Cytunodd Pwyllgor Craffu Materion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i sefydlu cylch 'gorchwyl a gorffen' i adolygu polisi'r cyngor ynglŷn â chodi taliadau am wasanaethau cymdeithasol y tu allan i ofal preswyl.

**Aelodau'r cylch oedd cyngorwyr a chynrychiolwyr cyfetholedig cynhalwyr oedd yn rhan o'r pwyllgor. Y gorchwyl oedd ystyried Mesur 'Taliadau am Ofal Cymdeithasol' Cymru 2010 a'r canllawiau amdano.**

Mae'r canllawiau'n dweud 'nad yw'r mesur, y rheoliadau sy'n deillio ohono iddo na'r canllawiau hyn yn gorfodi awdurdodau lleol i godi tâl. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw penderfynu a ddylai godi tâl a pha bolisiau fyddai'n briodol i wneud hynny. Lle mae awdurdod lleol yn dewis codi tâl, fodd bynnag, rhaid gweithredu yn ôl polisi sy'n cydymffurfio â gofynion a rheoliadau'r mesur yn ogystal â rhoi pob ystyriaeth briodol i'r canllawiau statudol hyn.'

Dyma'r prif faterion oedd dan sylw:

- Gwasanaethau y dylid codi tâl amdanyn nhw.
- Natur a lefel y taliadau.
- Defnyddio trefn codi taliadau.
- Eithriadau.
- Cost y gweinyddu.
- Adolygu taliadau a chwynion.
- Methu â thalu.

I ofalu y byddai ei argymhellion wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol i gyd, gofynnodd y cylch i broses ymgysylltu â defnyddwyr a chynhalwyr fynd rhagddi.

Mae'r astudiaeth hon yn disgrifio'r ymgysylltu â'r cyhoedd, a'r hyn ddeilliodd ohono.

## Crynodeb

Defnyddiwyd nifer o ddulliau i hel sylwadau'r defnyddwyr a'r cynhalwyr. Bwriad cyntaf y cylch oedd codi ymwybyddiaeth o'i orchwyl trwy wahodd defnyddwyr a chynhalwyr i gyfarfod.

Wedyn, gofynnodd y cylch i'r swyddog ymchwil oedd yn ei gynorthwyo gysylltu ac ymweld â charfanau clientiaid cyfredol y fwrdeistref sirol i esbonio'r gorchwyl a hel eu sylwadau nhw am nifer o faterion allweddol. Trwy hynny, gallai amrywiaeth o ddefnyddwyr o bob carfan gymryd rhan mewn amgylchiadau cyfleus. Rhoddwyd gwybod i bawb am reswm yr ymgynghori a sut y byddai'r ymatebion yn cael eu defnyddio.



# Ffurflen astudiaeth

O ganlyniad i'r ymweliadau, lluniwyd holiadur gyda chymorth Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, gan ofyn yr un cwestiynau atebodd y defnyddwyr yn ystod cam cyntaf yr ymgynghori. Anfonwyd holiaduron at bob mudiad oedd yn hysbys i'r gymdeithas ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Lluniwyd adroddiad cryno o'r ymatebion oedd wedi'u rhoi trwy'r ymgysylltu a'r ymgynghori, ac fe roddwyd gerbron y cylch 'gorchwyl a gorffen'. Defnyddiwyd yr ymatebion i helpu'r cylch i bennu argymhellion ei adroddiad terfynol.

Ar ôl gorffen yr adroddiad, hysbyswyd y carfanau cysylltiedig pryd y byddai gerbron pwyllgor craffu a chabinet y cyngor.

## Cyd-fynd ag Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

### 1. Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol

Digwyddodd yr ymgysylltu yn ystod proses adolygu'r polisi cyn i aelodau'r cylch ddod i unrhyw gasgliadau. Felly, gallai adborth y rhai gymerodd ran ynddo ddylanwadu ar yr argymhellion. Cytunodd aelodau'r cylch yn ystod y cyfarfod cyntaf y byddai'n hanfodol ymgynghori â'r cyhoedd i'w helpu i ddod i gasgliadau cyn pennu argymhellion.

### 2. Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis

Defnyddiwyd nifer o ddulliau i ddarparu ar gyfer yr amryw ddefnyddwyr a chynhalwyr y byddai'r polisi'n effeithio arnyn nhw. Mae gan swyddog materion pobl dros 50 oed yn y cyngor restr o garfanau clientiaid gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r polisi ac fe allai gyflwyno'r swyddog ymchwil iddyn nhw er mwyn meithrin ymddiried. Lluniwyd crynodeb o'r pwnc dan sylw a'i ledaenu yn eu plith. Lledaenwyd yn ystod diwrnod agored blynyddol y cyngor i gynhalwyr, hefyd. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth a rhoi manylion cysylltu â'r swyddog ymchwil.

Roedd yr ail gam yn ymwneud â chysylltu â'r carfanau hynny yn y fwrdeistref sirol a'u holi a fydd modd i'r swyddog ymchwil ddod i un o'u cyfarfodydd fel y byddai'n gyfleus.

Y trydydd cam oedd lledaenu holiadur ymhlith y carfanau trwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, gan roi manylion cysylltu â'r swyddog ymchwil fel y byddai modd cyflwyno unrhyw wybodaeth ddilynol.

### 3. Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd briodol

Roedd yr ymgysylltu'n rhan bwysig o'r adolygu, ac mae'r ffaith nad oedd aelodau'r cylch am ddod i unrhyw gasgliadau na phennu argymhellion cyn gweld ymatebion defnyddwyr a chynhalwyr i'r ymgynghori yn dangos hynny.

## Ffurflen astudiaeth

Gohiriwyd diwedd yr adolygu ar ôl ail gam yr ymgynghori fel y byddai modd cysylltu eto â charfanau cynrychioli.

Cysylltodd y swyddog ymchwil â charfanau a mynd i'w cyfarfodydd arferol gan ofalu ei fod yn ymgysylltu â phob carfan yn y modd mwyaf priodol. Ymwelodd â charfan anabledau dysgu, carfan nam ar y synhwyrâu a rhai grwpiau ar gyfer pobl hŷn.

### 4. **Cydweithio â phartneriaid perthnasol**

Defnyddiwyd canolwr – swyddog materion pobl dros 50 oed – i gysylltu â'r defnyddwyr yn y lle cyntaf. Gan fod y swyddog hwnnw wedi meithrin rhwydwaith helaeth o gysylltiadau ledled y fwrdeistref sirol, gallai fod o gymorth o ran manylion cysylltu a chyflwyno pobl.

At hynny, gallai Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent agor rhwydwaith y mudiadau sy'n cynrychioli defnyddwyr a chynhalwyr yn ogystal â helpu i'w cyflwyno.

Daeth cynrychiolwyr dau garfan o gynhalwyr i gyfarfodydd cylch adolygu'r polisi hefyd, yn ogystal â helpu i ennyn diddordeb yn y pwnc.

### 5. **Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon**

Roedd yr wybodaeth a ledaenwyd ar gael mewn print bras ac anfonwyd yr holiadur i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ar gyfer sylwadau cyn ei ledaenu.

Roedd sesiwn hysbysu carfanau'r defnyddwyr yn syml ac yn briodol i bob maes megis anabledau dysgu, nam ar y synhwyrâu a phobl hŷn. Roedd angen brawddegau byrion, ac iaith syml, ar gyfer pobl ac arnyn nhw anabledau dysgu yn ogystal â sticeri wynebaw hapus/trist i'w helpu i fynegi eu barn am y dewisiadau. Roedd angen i'r bobl hŷn drafod materion cyffredinol ac fe gasglodd y swyddog ymchwil eu sylwadau ar ddiwedd pob pwnc gan gadarnhau beth oedd y cydsyniad yn eu plith. Gan na fyddai cymorth gweledol yn briodol i bobl sydd â nam ar y synhwyrâu, fe roes y swyddog ymchwil grynodedd ar lafar ynglŷn â'r materion perthnasol a chofnodi eu sylwadau wedyn.

### 6. **Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan**

Ymwelodd y swyddog ymchwil â phob carfan yn eu manau cyfarfod arferol fel na fyddai neb yn teimlo'n anesmwyth trwy fod mewn lle anghyfarwydd. Roedden nhw yno gyda phobl roedden nhw'n eu hadnabod heb ofn mynegi barn yn eu gŵydd. Roedd lluniaeth yn ystod y sesiwn ac arhosodd y swyddog ymchwil yno wedyn i drafod materion yn anffurfiol gyda phobl oedd am roi gwybodaeth ychwanegol.

### 7. **Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol**

Ymwelodd y swyddog ymchwil â phob carfan yn eu manau cyfarfod arferol a defnyddio dull ymgysylltu yn ôl y garfan dan sylw fel na fyddai neb yn teimlo'n anesmwyth wrth gnoi cil ar bwnc llosg.



## Ffurflen astudiaeth

Cyflwynodd y rhan fwyaf o bobl ymateb a gwnaethpwyd ymdrechion i ymgysylltu â'r rhai oedd yn araf i gymryd rhan. Rhaid i'r swyddog ymchwil ofalu na fyddai rhai'n siarad yn ormodol yn ystod y drafodaeth gan geisio esbonio'r materion mewn ffyrdd gwahanol yn ôl gallu'r gynulleidfa, hefyd.

Diben yr amgylchiadau anffurfiol oedd galluogi pobl i ymlacio a'u hannog i ofyn llawer o gwestiynau am nod yr adolygiad a sut y byddai'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio. Fe ddiolchodd rhai i'r cyngor am roi cyfle iddyn nhw fynegi barn. Penderfynodd rhai pobl beidio ag ateb nifer o gwestiynau, er iddyn nhw roi rhesymau dros hynny. Y rhesymau oedd naill ai nad oedd barn bendant gyda nhw neu eu bod yn gyndyn o gefnogi polisi codi taliadau. Roedd yn amlwg bod pawb am i'r taliadau fod yn deg i'r defnyddwyr i gyd.

Roedd yn bwysig cael hwylusydd profiadol i reoli'r carfanau amryfal hynny, a chan fod gan y swyddog ymchwil brofiad o waith gwasanaethau cymdeithasol, roedd yn gyfarwydd â'r pynciau dan sylw ac yn deall anghenion amrywiaeth helaeth o ddefnyddwyr.

### 8. **Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol**

Yn rhan o'r dyletswyddau arferol, roedd y swyddog ymchwil yn gyfrifol am gynnal proses ymgysylltu ar ran y cylch. Doedd dim angen rhoi ystafelloedd na lluniaeth ar gael am fod pob carfan wedi gwneud hynny eisoes pan ymwelodd â nhw.

### 9. **Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad**

Roedd y nodyn hysbysu a amlinellwyd ddechrau'r prosiect wedi amlinellu'r cynigion a'r gorchwyl. Cyflëwyd yr hyn allai ddeillio o'r broses yn eglur i bawb a gymerodd ran. Dywedwyd wrth bawb a gymerodd ran pryd y byddai adroddiad terfynol y cylch ar gael a phryd y byddai gerbron y cyngor.

### 10. **Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu**

Roedd adborth am y sesiynau ymgysylltu yn weddol dda ac roedd defnyddwyr yn fodlon cymryd rhan yn y broses.

Cyflwynwyd adroddiad am yr ymgynghori i'r cylch adolygu gan nodi'r amryw lwyddiannau a methiannau. Roedd nifer bychan yr ymatebion i'r holiadur wedi peri siom i gynghorwyr er eu bod o'r farn bod digon o ymatebion i ddod i gasgliad, o ystyried natur anodd y pwnc. Mae'n anodd gweld beth arall y gallai'r cylch fod wedi'i wneud i ymgynghori â'r carfanau o dan sylw. Lledaenwyd yr wybodaeth tua dechrau'r prosiect, ymwelwyd â grwpiau ac fe anfonwyd holiaduron at fudiadau sy'n cynrychioli'r amryw ddefnyddwyr.

Gobeithio y bydd modd dychwelyd i'r un carfanau yn y dyfodol a datblygu'r ymddiried a feithrinwyd yn ystod yr ymgysylltu hwn.



## Ffurflen astudiaeth

### Manylion cysylltu:

Enw: Catherine Forbes-Thompson  
Swydd: Swyddog Ymchwil i Graffu  
Sefydliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Ebst: [forbecl@Caerphilly.gov.uk](mailto:forbecl@Caerphilly.gov.uk)

### Gwefan a linciau defnyddiol eraill

Mae rhagor o wybodaeth am Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar: [www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)

2012